



Polisi Diogelu – Agor y Llyfr (Cymru a Lloegr)

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD
 2. CWMPAS
 3. DATGANIAD POLISI
 4. RECRIWTIO MWY DIOGEL
 5. HYFFORDDIANT AC AROLYGAETH
 6. CANLLAWIAU GWEITHREDU MEWN YSGOLION
 7. YMDRIN Â DATGELU A CHANFOD CAMDRINIAETH
 8. RHOI GWYBOD AM AMHEUAETH O GAM-DRIN
 9. ADOLYGU GWEITHDREFNAU A HYFFORDDIANT
- ATODIAD 1 – DIFFINIO CAM-DRIN – PLANT
- ATODIAD 2 – BETH I'W WNEUD OS OES GENNYCH BRYDER AM DDIOGELU

1. CYFLWYNIAD

Mae'r gwahanol elfennau fel a ganlyn:

- Datganiad Polisi
- Cod Ymddygiad Diogelu i Storiwyr Agor y Llyfr, fel y'i gwelir ar wefan Agor y Llyfr ac a ddarperir i holl Storiwyr Agor y Llyfr.
- Gweithdrefnau a chanllaw yn seiliedig ar Working Together 2018 (Lloegr), Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl 2018 (Cymru), Keeping Children Safe in Education (Medi 2020) (Lloegr), Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cytundeb Rhyngwladol ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD). Disgwylir hefyd i'r polisi hwn fod yn weithredol ar Ynysoedd y Sianel, Ynys Sodor ac Ynys Manaw onid oes deddfwriaeth leol benodol mewn grym a fyddai'n rhwystro iddo gael ei fabwysiadu

At ddibenion y polisi hwn, mae 'plant' yn cyfeirio at rai nad ydynt yn oedolion (h.y. y rhai sydd o dan 18 oed), oni nodir yn wahanol. Mae 'Storiwyr' yn cyfeirio at y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn wirfoddol yng ngwaith Agor y Llyfr. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gynllun sy'n gwirio pobl yng Nghymru a Lloegr. Ar Ynys Manaw ac yn Ynysoedd y Sianel, yr awdurdod diogelu a gwirio lleol fydd hwn.

Mabwysiadwyd y datganiad polisi sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon yn dilyn ei gymeradwyo gan Gymdeithas y Beibl ('y Gymdeithas'). Bydd yn cael ei adolygu a'i gadarnhau'n flynyddol, a bydd ar gael ar wefan Agor y Llyfr ac ar ffurf ysgrifenedig o wneud cais amdano.

2. CWMPAS

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr cyflogedig, gweithwyr cyflogedig dros dro, storiwyr gwirfoddol, hyfforddwyr gwirfoddol, hyfforddwyr cyswllt, Cydlynwyr Ardal, cydlynwyr,

ymgyngorwyr, contractwyr, asiantau ac is-gwmnïau sy'n gweithredu dros, neu ar ran y Gymdeithas / Agor y Llyfr ('personau cysylltiedig'). Mae pob gweithiwr cyflogedig a phersonau cysylltiedig sy'n gweithredu ar ran y Gymdeithas / Agor y Llyfr yn gyfrifol am gadw'r safonau uchaf mewn ymddygiad busnes. Gall unrhyw dor-polisi fod yn fater cytundebol, disgyblaethol, ac yn / neu'n drosedd ddifrifol. Gall hefyd achosi niwed difrifol i enw da Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr

Disgwylir i bob gweithiwr cyflogedig a phersonau cysylltiedig ymgyfarwyddo â'r polisi hwn, a chydymffurfio ag ef, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Gymdeithas / Agor y Llyfr.

3. DATGANIAD POLISI

Mae Agor y Llyfr yn brosiect lle mae gwirfoddolwyr lleol o'r eglwys leol, sawl eglwys gyda'i gilydd neu sefydliad (defnyddir yr enw 'yr awdurdod anfon' o hyn ymlaen) yn ymweld ag ysgolion i gyflwyno gwasanaeth / gweithred o addoli ar y cyd sy'n adrodd stori Feiblaidd. Mae Agor y Llyfr yn rhan o Gymdeithas y Beibl lle mae staff cyflogedig yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu timau mewn ardaloedd newydd gyda chymorth hyfforddwyr gwirfoddol sy'n gweithredu mewn ardaloedd eraill. Cyfrifoldeb yr awdurdod anfon yw sicrhau bod y Storiwyr yn cael eu recriwtio mewn modd diogel. Nid yw'n rôl nac yn gyfrifoldeb i Agor y Llyfr.

Mae Cymdeithas y Beibl/ Agor y Llyfr wedi mabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

Credwn fod pob person dynol yn gyfwerth yng ngolwg Duw a'n nod yw dilyn egwyddorion Beiblaidd ym mhopeth a wnawn.

Felly:

- Rydym ym ymrwymo i feithrin, amddiffyn a chadw pawb yn ddiogel, yn enwedig plant a phobl ifanc.
- Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin ('cam-drin') yn gorfforol, yn feddyliol, yn rhywiol ac yn emosiynol, ac i roi gwybod os yw unrhyw gamdriniaeth yn cael ei hamau neu ei darganfod.
- Dylid cynnal gweithgareddau Agor y Llyfr mewn ysgolion yn y fath fodd fel na fydd plant na storiwyr yn agored i'r posibilrwydd o gael eu cam-drin.
- Mae'n ofynnol i bob Swyddog Hyfforddi a Datblygu Agor y Llyfr dderbyn hyfforddiant mewn Diogelu a meddu ar ddatgeliad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (i'w adnewyddu bob 3-5 mlynedd)
- Mae'n ofynnol i bob Hyfforddwr Lleol gwirfoddol dderbyn hyfforddiant mewn Diogelu a chael gwiriad DBS cyfredol cyn cynrychioli Agor y Llyfr yn y rôl hon.

Er mwyn gweithredu'r egwyddorion hyn, mae Agor y Llyfr yn mynnu bod pawb sy'n rhan o'r gwaith, ac yn arbennig Storiwyr, yn ymrwymo i gadw at y canllawiau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon ac yn y Cod Ymddygiad Diogelu.

4. RECRIWTIO MWY DIOGEL

4.1 PROSES RECRIWTIO STORIŴYR

Nid staff Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr sy'n cyf-weld nac yn dewis Storiwyr i gyflawni'r gwaith, ond mae gofyn i'r Storiwyr fod yn aelodau o'r awdurdod anfon a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo ar gyfer y weinidogaeth hon gan yr arweinwyr perthnasol. Mae'r awdurdod anfon hefyd yn gyfrifol am y gwaith o archwilio cefndir gwirfoddolwyr a'u recriwtio i fod yn Storiwyr gan ddilyn y drefn a welir isod. Dylai pob awdurdod anfon ddilyn y broses recriwtio a dethol sydd wedi ei rhestru isod.

Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n bosib y bydd rhai ysgolion yn disgwyl i Storiwyr feddu ar dystysgrif gwiriad cyn ymweld â'r ysgol fel gwirfoddolwyr. Rhaid penderfynu ar hyn yn lleol fel rhan o'r broses recriwtio gwirfoddolwyr. Os bydd y gwirfoddolwr bob amser yng nghwmni person arall, mae hawl ganddo / ganddi i gael gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu fel arall rhaid iddo/iddi fod yng nghwmni person sydd â gwiriad manwl (wedi gwirio rhestr y rhai sydd wedi'u gwahardd).

Cyfweliad/trafodaeth. Dylid cynnal cyfweliad wyneb yn wyneb neu drafodaeth gyda chwestiynau clir a baratowyd ymlaen llaw er mwyn asesu addasrwydd unigolyn ar gyfer rôl Storiwr. Dylid gofyn yn ddi-ffael a ydynt yn gwybod am unrhyw reswm pam na ddylent weithio gyda phlant. Mae'n bosib y byddwch am ofyn am eirida fel rhan o'r broses recriwtio hon.

Os nad yw'r ymgeisydd yn barod i wneud cais am y gwiriad priodol sy'n ofynnol gan yr awdurdod anfon, ei benderfyniad ef neu hi yw hynny, ond ni ddylid parhau â'r broses a dylid dod â'r cais i ben.

4.2 YMRWYMIAD CYMDEITHAS Y BEIBL I DDIOGELU

Mae Storiwyr yn cael eu recriwtio ar hyd a lled y wlad i waith Agor y Llyfr gan y gwahanol gyrff sy'n anfon, ac nid gan Agor y Llyfr na Chymdeithas y Beibl. Felly, cyfrifoldeb pob awdurdod anfon yw sicrhau bod y gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio ganddynt yn cael eu gwirio'n briodol. Gall hyn gynnwys cynnal cyfweliad, derbyn geirida a chwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â chanllawiau cyfredol y Gwasanaeth, ac er mwyn sicrhau fod yr unigolyn yn addas i wneud gwaith Agor y Llyfr cyn i unrhyw berson gychwyn yn y gwaith.

I ddibenion y polisi hwn, mae 'datgeliad clir' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn golygu na ddylai'r gwiriad ddatgelu gwybodaeth a fyddai, ym marn yr awdurdod anfon ac sy'n gyfrifol am sicrhau'r gwiriad, yn gwneud yr unigolyn yn anaddas i'r gwaith gwirfoddol. Wedi ceisio datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, os yw'r canlyniadau'n datgelu gwybodaeth am hanes troseddol sy'n berthnasol i waith Storiwr, dylai'r awdurdod anfon ac sy'n ceisio'r datgeliad gynnal asesiad o addasrwydd yr unigolyn ar gyfer y gwaith. Ni ddylid dibynnu ar wybodaeth nad yw'n berthnasol i'r gwaith fel rheswm dros wrthod i unigolyn ymgymryd â'r rôl.

Mae arweiniad a chyngor ar gael ar ymddygiad da wrth ddod i gysylltiad â phlant, a chaiff hyn ei gynnwys yn yr hyfforddiant dechreuol a dilynol sy'n cael ei gyflwyno i Storiwyr gan hyfforddwyr sydd wedi'u cymeradwyo'n lleol. Rhoddir cyngor a chefnogaeth gan Gymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr.

Os bydd person o dramor yn ymgeisio am swydd, dylai'r person sy'n trefnu'r penodiad ofyn i'r ymgeisydd am wybodaeth am unrhyw droseddau (a elwir hefyd yn dystysgrif ymddygiad/cymeriad da) gan y Llysgenhadaeth berthnasol / yr Uchel Gomisiwn (neu heddlu) perthnasol. Mae hyn yn golygu fod angen i'r ymgeisydd, yn ychwanegol at geisio datgeliad gan Wasanaeth Datgelu a Gwahardd y DU, wneud cais am y gwiriad ychwanegol hwn a fydd yn cwmpasu'r amser a dreuliodd ganddo / ganddi dramor. Am wybodaeth bellach, gweler gwefan y Swyddfa Gartref:

gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants

4.3 YMRWYMIAD STORIŴYR I DDIOGELU

Rhaid i bob Storiŵr ddatgan y bydd yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, a bydd yn derbyn crynodeb o'r gweithdrefnau Diogelu. Disgwylir iddynt hefyd gadw at y Cod Ymddygiad, a byddant yn cael eu briffio am Bolisi Diogelu pob ysgol unigol a'r gweithdrefnau perthnasol. Bydd pob Storiŵr yn cytuno i gadw at y polisi hwn, y Cod Ymddygiad pan fydd yn ymweld ag ysgolion, ac at bolisiâu a gweithdrefnau lleol perthnasol yr ysgolion.

5. HYFFORDDIANT AC AROLYGAETH

Dylai fod gan bob Storiŵr gopi o'r Llawlyfr sy'n cynnwys y Cod Ymarfer. Bydd Arweinwyr Timau yn hysbysu'r Storiŵr o unrhyw newidiadau i Bolisi Diogelu a gweithdrefnau'r ysgol. Lle bo hynny'n bosib, dylai Storiŵr fynychu hyfforddiant lleol fydd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelu, a hynny'n flynyddol. Yn ychwanegol at hyn, dylai Arweinwyr Timau sicrhau fod materion diogelu, y polisi hwn, unrhyw weithdrefn berthnasol, a'r Cod Ymddygiad Diogelu yn cael eu trafod gyda'u timau unwaith y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymwybodol sut i ymdrin ag unrhyw bryderon am ddiogelu o ran plant neu wirfoddolwyr. Bydd Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr yn sicrhau bod Storiŵr yn derbyn gwybodaeth am unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu, a pholisiâu a'r gweithdrefnau cysylltiedig drwy e-bost a'r wefan.

Bydd timau newydd yn cael hyfforddiant craidd naill ai'n Bersonol neu ar zoom. Dylai Arweinwyr Timau newydd gysylltu ag Agor y Llyfr am gymorth a chynghor. Yr ydym hefyd yn argymhell y dylai Storiŵr fynychu hyfforddiant diogelu eu henwad a sesiwn gydag Arweinydd Diogelu Dynodedig neu Uwch-berson Diogelu Dynodedig yr ysgol.

5.1 DEFNYDDIO GORUCHWYLIAETH FEL FFORDD O DDIOGELU PLANT

Mae gan bob tîm Agor y Llyfr Arweinydd Tîm dynodedig sy'n cynllunio ac yn adolygu'r gwaith gwirfoddol gydag arweinydd yr eglwys y mae'n atebol iddi. Bydd yr Arweinydd Tîm ac arweinydd yr awdurdod anfon yn cysylltu ag awdurdodau'r ysgol lle bo hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol unrhyw blentyn.

6. CANLLAWIAU GWEITHREDU MEWN YSGOLION

6.1 YMRWYMIAD I YMARFER DA

Mae pob Storiwr yn cytuno i'r canlynol:

- cadw at y sgrïpt a chyflwyno'r stori yn syml, heb ychwanegu nac addasu, gan ddilyn y canllawiau yn Llawlyfrau Agor y Llyfr
- gadael i bob stori siarad drosti ei hun, fel stori Feiblaidd, nid fel pregeth
- cysylltu'n agos ac yn sensitif ag ysgolion, a bod yn ystyriol o'r amgylchedd addysgol
- gwneud cyn lleied o ofynion ag sy'n bosib ar ysgolion a bod yn ymwybodol eu bod yn ymwelwyr ar wahoddiad
- dangos parch a sensitifrwydd at rai sydd o ffydd arall, ac at rai sydd heb ffydd
- cyflawni'r gofynion diogelu perthnasol, h.y. dilyn y polisi hwn a'r Cod Ymddygiad Diogelu ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig
- parchu hawlfraint adnoddau Agor y Llyfr.

Rhaid i aelodau o staff yr ysgol fod yn bresennol gyda phob Storiwr yn ystod pob cynulliad ysgol / gweithred o addoli ar y cyd.

6.2 POLISI'AU A GWEITHDREFNAU DIOGELU YSGOLION

Disgwylir i'r ysgolion y mae timau Agor y Llyfr yn ymweld â hwy fod â Pholisïau a Gweithdrefnau Diogelu eu hunain mewn lle ac Arweinydd Diogelu Dynodedig (Lloegr) neu Uwch-berson Diogelu Dynodedig (Cymru) yn unol â Working Together 2018 (Lloegr), Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl 2018 (Cymru), Keeping Children Safe in Education (Medi 2020) (Lloegr), Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cytundeb Rhyngwladol ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD).

6.3 LLEIHOU SEFYLLFAOEDD LLE GALL CAM-DRIN DDIGWYDD

Gan fod gwaith Agor y Llyfr bob amser yn digwydd yn agored mewn cynulliad ysgol / gweithred o addoli ar y cyd gydag athrawon cyfrifol yn bresennol, ac yn cael ei wneud bob amser gan dîm o wirfoddolwyr gyda'i gilydd, ni ddylai sefyllfaoedd godi lle y bydd Storiwr ar ei ben ei hun gyda phlentyn unigol. Mae timau Agor y Llyfr yn ymwelwyr yn yr ysgol ac mae eu hymweliadau'n cael eu trefnu ymlaen llaw ac yn cadw at amserlen reolaidd. Ni fydd Agor y Llyfr yn cofrestru timau nad ydynt yn gysylltiedig â'u cymuned eglwysig leol.

7 YMDRIN Â DATGELU A CHANFOD CAM-DRINIAETH

7.1 PRYDER AM BLENTYN (GWELER YR ATODIAD)

Os oes unrhyw aelod o staff Agor y Llyfr neu Storiwr yn dod yn ymwybodol o bryder am ddiogelwch neu les plentyn – naill ai oherwydd yr hyn y mae'r plentyn ei hun yn ei ddweud neu oherwydd pryder/ canfyddiad personol – rhaid:

- hysbysu Arweinydd Diogelu Dynodedig neu Uwch-berson Diogelu Dynodedig yr ysgol ar unwaith.
- Os yw aelod o staff Agor y Llyfr neu wirfoddolwr yn rhan o'r cam-drin, rhaid hysbysu Swyddog Diogelu yr enwad perthnasol a Rheolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl, ac mae'n bosib y bydd yn penderfynu bod angen rhoi gwybod

am y digwyddiad i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y Comisiynwyr Elusennau a'r awdurdodau perthnasol.

Mae diffiniadau manwl o gam-drin ynghyd ag arwyddion o gam-drin, yn ogystal â sut i ymateb i ddatgeliad o gam-drin, wedi'u cynnwys isod ac yn Atodiad 1:

- Cam-drin yw ymyrryd â hawliau dynol a sifil unigolyn gan rywun neu rywrai eraill.
- Gall cam-drin gynnwys un weithred unigol neu weithredoedd sy'n digwydd dro ar ôl tro.
- Gall fod yn gorfforol, yn eiriol neu'n seicolegol, gall fod yn weithred o esgeulustod neu beidio â gweithredu, neu fe all ddigwydd pan fydd person bregus yn cael ei berswadio i gymryd rhan mewn gweithred ariannol neu rywiol nad ydyw wedi cydsynio â hi neu na all gydsynio â hi.
- Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw berthynas a gall arwain at ecsbloetio neu niwed sylweddol i'r sawl sy'n cael ei gam-drin.

7.2 PRYDER YNGHYLCH YMDDYGIAD GWIRFODDOLWR (GWELER YR ATODIADAU)

Os yw aelod o staff neu Storiwyr Agor y Llyfr yn dod yn ymwybodol o bryder am addasrwydd Storiwr i gyflawni gwaith Agor y Llyfr oherwydd risg i ddiogelwch a lles plentyn neu blant,

- dylent hysbysu Swyddog Diogelu perthnasol yr awdurdod anfon am eu pryder a rhoi gwybod i Reolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl ar unwaith.
- Os yw'n berthnasol ac yn angenrheidiol, dylai Cymdeithas y Beibl roi gwybod i'r ysgol berthnasol am y pryderon.
- Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid oes unrhyw beth o fewn y polisi hwn yn rhwystro aelod o staff neu Storiwr Agor y Llyfr rhag rhannu eu pryderon ynglŷn ag addasrwydd Storiwr i gyflawni gwaith Agor y Llyfr.
- Dylent hysbysu Swyddog Diogelu yr Eglwys / Enwad perthnasol yn syth a rhoi gwybod hefyd i Reolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl.
- Bydd y Swyddogion Diogelu yn dilyn gweithdrefnau diogelu eu heglwys, yn cynnwys hysbysu'r Awdurdod Diogelu lleol pan fo angen.
- Pan fo'r pryderon yn gyfryw fel bod angen gwahardd y Storiwr o waith Agor y Llyfr dros dro er diogelwch plentyn, dylid hysbysu Rheolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl na fydd y gwirfoddolwr penodol hwnnw yn cymryd rhan yng ngwaith Agor y Llyfr am y tro.

8. RHOI GWYBOD AM AMHEUAETH O GAM-DRIN

Mae Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr yn dibynnu ar eu gweithwyr cyflogedig a'u Storiwyr i gadw at y safonau uchaf o ymddygiad ym mhob un o'i gweithgareddau. Gofynnir i weithwyr

cyflogedig a Storiwyr i gynorthwyo Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr ac i fod yn wyladwrus er mwyn rhwystro, darganfod a rhoi gwybod am unrhyw gam-drin.

Dylai gweithwyr cyflogedig a Storiwyr roi gwybod am unrhyw bryderon ac amheuan sydd ganddynt ynghylch cam-drin plentyn, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau isod (gweler hefyd yr Atodiadau amgaeedig).

- Ni ddylid trafod amheuan gydag unrhyw berson ac eithrio'r rhai a ddynodir uchod (ac fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2).
- Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r union eiriau a ddefnyddiwyd, gan nodi'r amseroedd a'r dyddiadau.
- Dylid nodi'r pryderon, y trafodaethau a'r penderfyniadau a wnaed, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny yn unol â'r gweithdrefnau hyn a'u cadw mewn man diogel.

Os na fydd yr Awdurdod Diogelu, yr eglwys neu'r ysgol leol yn gweithredu, a bod Cymdeithas y Beibl yn ei ystyried yn briodol, cynhelir ymchwiliad, er lles diogelwch y plentyn, gan ddilyn gweithdrefn fewnol Cymdeithas y Beibl.

8.1 GWEITHREDU GAN GYMDEITHAS Y BEIBL

- Bydd Cymdeithas y Beibl yn ymchwilio'n drylwyr i bob digwyddiad o gam-drin honedig neu dybiedig gan ei gweithwyr cyflogedig ac, i'r graddau y mae'n bosibl, bydd yn ymchwilio'n llawn i bob digwyddiad o gam-drin honedig neu dybiedig gan unrhyw bersonau cyswllt os bydd yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol neu'r hyn sy'n cyfateb iddo.
- Gall gweithwyr cyflogedig a phersonau cyswllt sydd o dan amheuaeth o gam-drin gael eu hatal o'u dyletswyddau, lle bo angen, tra bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal.
- Os bydd un o'i gweithwyr dan amheuaeth o gam-drin, gall Cymdeithas y Beibl weithredu ei gweithdrefnau disgyblu, a gall honiadau a brofir arwain at ddyfarniad o gamymddwyn difrifol a diswyddo ar unwaith.
- Gwirfoddolwyr o'r eglwysi yw'r Storiwyr ac oherwydd hynny nid ydynt yn ddarostyngedig i bolisiâu disgyblu Cymdeithas y Beibl; y mae'r rhain yn gymwys i'w gweithwyr cyflogedig yn unig. Er hynny, mae'n bosibl y gofynnir i Storiwyr roi gorau i'w gwaith mewn achos o gam-drin tybiedig hyd nes y ceir penderfyniad terfynol
- Mae Cymdeithas y Beibl yn cadw'r hawl i derfynu ei pherthynas, a hynny yn ddirybudd, ag unrhyw berson y mae'n ei ystyried yn anaddas i weithredu ar ei rhan ar sail ei ymwneud ag unrhyw gam-drin o'r fath.
- Gall Cymdeithas y Beibl hefyd hysbysu'r awdurdodau perthnasol, yn cynnwys yr heddlu, am unrhyw gam-drin sy'n cael ei honni neu ei brofi. Bydd Cymdeithas y Beibl yn rhoi pob cymorth sydd ei angen i'r awdurdodau perthnasol gydag unrhyw ymchwiliad a allai ddilyn.
- Bydd Cymdeithas y Beibl yn hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol am unrhyw bryderon ynghylch cam-drin honedig gan weithiwr cyflogedig ac yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol, gan gynnwys ymchwiliadau statudol.

9. ADOLYGU GWEITHDREFNAU A HYFFORDDIANT

Bydd Adran Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl yn monitro ac yn adolygu'r modd y gweithredir y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn flynyddol. Anogir gweithwyr cyflogedig a'r rhai sy'n gweithio i Gymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr, neu ar eu rhan, i gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol gydag unrhyw awgrymiadau, sylwadau neu adborth ar sut y gellir gwella'r gweithdrefnau hyn.

Mae Cymdeithas y Beibl / Agor y Llyfr yn cadw'r hawl i newid a diweddarau'r polisi hwn yn ôl y gofyn. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi hwn yn ffurfio rhan o gytundebau cyflogaeth gweithwyr cyflogedig.

ATODIAD 1 DIFFINIO CAM-DRIN – PLANT

Cam-drin Plant

Mae cam-drin plant yn cynnwys unrhyw beth a wneir gan berson arall - oedolyn neu blentyn - sy'n achosi niwed sylweddol i blentyn. Gall fod yn gorfforol, yn feddyliol, yn rhywiol neu'n emosiynol, ond gall ymwneud yr un mor aml â diffyg cariad, gofal a sylw. Gwyddom y gall esgeulustod, ym mha ffurf bynnag, fod yr un mor niweidiol i blentyn â cham-drin corfforol. Amcangyfrifir bod dros hanner miliwn o blant yn cael eu cam-drin yn y DU bob blwyddyn.

Diffiniadau statudol o Gam-drin (Plant)

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn fathau o drin plentyn yn wael. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy achosi niwed, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed.

Gall plant gael eu cam-drin o fewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan y rhai maent yn eu hadnabod neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn. Gallant gael eu cam-drin gan oedolyn/oedolion neu gan blentyn neu blant eraill.

Mae deddfwriaeth amddiffyn plant ledled y DU yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae pob gwlad yn y DU wedi ymgorffori'r confensiwn o fewn ei deddfwriaeth a'i chanllawiau.

Beth yw cam-drin ac esgeulustod?

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn fathau o drin plentyn yn wael. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy achosi niwed, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin o fewn y teulu neu mewn lleoliadau sefydliadol neu gymunedol, gan bobl y maent yn eu hadnabod neu, yn llai aml, gan ddieithryn er enghraifft, drwy'r rhynggrwyd. Gallant gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu blentyn neu blant eraill.

Cam-drin corfforol: Gall hyn olygu curo, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi â than neu ddŵr, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall cam-drin corfforol hefyd ddigwydd pan fo rhiant neu ofalwr yn esgus bod gan y plentyn symptomau, neu'n achosi salwch mewn plentyn yn fwriadol.

Cam-drin emosiynol: Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn wael yn emosiynol, a hynny'n barhaus, gan niweidio ac effeithio ar ddatblygiad emosiynol y plentyn mewn modd difrifol a chyson. Gall olygu cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth, nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu mai eu hunig werth yw diwallu anghenion unigolyn arall. Gall olygu gwrthod cyfle i blant fynegi barn, rhoi taw arnynt yn fwriadol neu eu gwneud yn destun sbort oherwydd yr hyn maent yn ei ddweud neu'r ffordd y maent yn siarad. Gall olygu disgwyl gormod gan blentyn o'i oed a'i ddatblygiad.

Gall hyn gynnwys rhyngweithio mewn ffordd sydd y tu hwnt i allu a datblygiad y plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar ei allu i archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol normal. Gall olygu gweld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), peri i blant deimlo'n ofnus neu feddwl eu bod mewn perygl, a hynny'n aml, neu ddefnyddio neu lygru plant. Mae yna elfen o gam-drin emosiynol ym mhob math o gam-drin plant, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Cam-drin rhywiol: Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu annog plentyn neu unigolyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyffwrdd plant yn gorfforol, gan gynnwys gweithgareddau treiddiol (er enghraifft trais neu ryw geneuol) neu weithgareddau nad ydynt yn dreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd heb fynd o dan unrhyw ddillad. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau digyffyrddiad, megis plant yn edrych ar ddelweddau rhywiol neu'n cymryd rhan mewn cynhyrchu delweddau rhywiol, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffordd rywiol amhriodol, paratoi plant i gymryd rhan mewn cam-driniaeth (gan gynnwys trwy'r rhynggrwyd). Nid dynion yn unig sy'n cam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd sy'n cam-drin eraill yn rhywiol, fel y gall plant hefyd.

Esgeulustod : Mae esgeulustod yn fethiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol. Gall ddigwydd yn ystod y beichiogrwydd oherwydd bod y fam yn camddefnyddio sylweddau. Wedi geni'r plentyn, gall esgeulustod ddigwydd oherwydd bod rhiant neu ofalwr yn methu:

- darparu bwyd, dillad neu lety digonol (mae hyn yn cynnwys cau'r plentyn allan o'r cartref neu droi cefn arno);
- amddiffyn y plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol;
- sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (yn cynnwys defnyddio gofalwyr anaddas); neu
- sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol.

Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn neu beidio ag ymateb iddynt.

Ecsbloetio plant yn rhywiol

Mae ecsbloetio plant yn rhywiol yn ffurf ar gam-drin plant. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi plant neu berson ifanc o dan 18 oed, i ddyllanwadu arnynt neu eu twyllo i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) er budd ariannol neu er mwyn sicrhau statws uwch i'r cyflawnwr neu'r hwylusydd. Mae modd i'r dioddefwr gael ei ecsbloetio'n rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw ecsbloetio plant yn rhywiol bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg.

Eithafiaeth

Mae eithafiaeth yn mynd y tu hwnt i derfysgaeth ac yn cynnwys pobl sy'n targedu'r rhai sy'n fregus – gan gynnwys yr ifanc – drwy geisio creu rhaniadau rhwng cymunedau ar sail hil, crefydd neu enwad; yn ceisio cyfiawnhau trin gwragedd a merched yn wahanol; yn ceisio perswadio pobl bod

Ileiafrifoedd yn israddol; neu'n dadlau yn erbyn y lle hollbwysig a roddir i ddemocratiaeth a'r gyfraith yn ein cymdeithas.

ARWYDDION A SYMPTOMAU CAM-DRIN

Arwyddion o Gam-drin Posibl (plant a phobl ifanc)

Gall y canlynol fod yn arwyddion fod cam-drin wedi digwydd ond dylid eu hystyried yng nghydestun bywyd cyfan y plentyn.

Corfforol

- Anafiadau nad ydynt yn gyson â'r esboniad a roddir amdanynt
- Anafiadau mewn manau o'r corff na fyddai fel arfer yn derbyn anaf yn dilyn cwmp neu chwarae ayb
- Anafiadau nad ydynt wedi cael sylw meddygol
- Amharoddrwydd i newid neu gymryd rhan mewn gemau neu nofio
- Heintiau wrinol cyson neu boenau bol anesboniadwy
- Cleisiau ar fabanod, brathiadau, llosgiadau, toriadau ac ati nad oes modd eu hesbonio fel rhai damweiniol*
- Toriadau / crafiadau / cam-drin sylweddau*

Rhywiol

- Unrhyw honiadau a wneir ynghylch cam-drin rhywiol
- Rhoi sylw gormodol i faterion rhywiol a gwybodaeth fanwl o ymddygiad rhywiol oedolion
- Gweithgaredd rhywiol amhriodol i'r oedran wrth siarad, chwarae neu dynnu lluniau
- Plentyn sy'n bryfoclyd yn rhywiol neu'n fflyrtio gydag oedolion
- Trefniadau rhannu gwely amhriodol yn y cartref
- Problemau cysgu difrifol gydag ofnau, ffobiâu, breuddwydion neu hunllefau byw, weithiau ag arwyddocâd rhywiol amlwg neu gudd
- Anhwylderau bwyta - anorecsia, bwlimia *

Emosiynol

- Newidiadau mewn hwyliau neu ymddygiad neu baroddrwydd i gymryd rhan, yn enwedig os yw'r plentyn yn ymgilio neu'n dechrau glynu'n agos at berson
- Iselder, ymddygiad ymosodol, pryder eithafol
- Nerfusrwydd, yn hollol lonydd a gwylidwrus

- Obsesiynau neu ffobiâu
- Tangyflawni neu ddiffyg canolbwytio annisgwyl
- Perthynas amhriodol gyda chyfoedion ac/neu oedolion
- Ymddygiad sy'n ceisio sylw
- Blinder parhaus
- Rhedeg i ffwrdd / dwyn/ dweud celwydd

Esgeulustod

- Diffyg maeth, diffyg tyfiant, eisiau bwyd yn gyson, dwyn neu gladdu bwyd, salwch heb ei drin
- Diffyg gofal ac yn y blaen

* Gall y rhain hefyd ddangos y posibilrwydd bod plentyn neu berson ifanc yn hunan-niweidio. Mae tua 20,000 yn cael eu trin mewn adrannau damweiniau ysbytai yn y DU bob blwyddyn

Diffiniad pellach o'r hyn yw cam-drin (Plant)

Niwed Sylweddol

Mae hyn yn ymwneud â lefel y niwed sy'n rhoi cychwyn i'r gweithredu statudol sydd ei angen i ddiogelu plentyn. Mae[n seiliedig ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn unigol o'i gymharu â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl mewn plentyn tebyg. E.e. difrifoldeb y cam-drin, maint a graddfa'r niwed corfforol, cyfnod ac amllder y gamdriniaeth a'r esgeulustod, rhagfwiad. Mae canllawiau'r Adran Iechyd yn awgrymu bod 'sylweddol' yn golygu 'trawiadol neu arwyddocaol'.

Plant y mae eu salwch yn ddychmygol neu wedi'i achosi'n fwriadol (Syndrom Munchausen trwy Brocsi, gynt)

Mae hwn yn fath o gam-drin lle mae rhieni neu ofalwyr yn esgus bod gan y plentyn symptomau, neu'n ffugio arwyddion o salwch (i dynnu sylw atynt eu hunain). Byddant yn gwneud ceisiadau dro ar ôl tro am ymchwiliadau meddygol a thriniaeth ddiangen i'w plant. Mae canllawiau'r llywodraeth parthed hyn ar gael yn 'Diogelu Plant y mae eu salwch yn ddychmygol neu wedi'i achosi'n fwriadol' (2002).

Cam-drin Ysbrydol

Yn gysylltiedig â cham-drin emosiynol, gellid diffinio cam-drin ysbrydol fel camddefnyddio pŵer, a hynny'n aml yn enw Duw neu grefydd, gan ddylanwadu ar berson neu ei orfodi i feddwl, dweud neu wneud pethau heb barchu ei hawl i wneud ei ddewisiadau ei hun.

Efallai yr amlygir hyn mewn arweinydd sy'n dychryn pobl ac yn mynnu eu bod yn gwneud beth mae ef/hi ei eisiau, gan fygwth canlyniadau ofnadwy neu ddiacter Duw os byddant yn anufuddhau. Efallai y bydd yn dweud fod Duw wedi datguddio pethau iddo neu iddi a'i fod/bod felly yn gwybod beth sy'n iawn. Mae'r rhai sy'n cael eu harwain ganddo neu ganddi yn ofni ei herio neu anghytuno ag ef/â hi, gan gredu y byddant yn colli ffafr a chymeradwyaeth yr arweinydd (neu, yn fwy difrifol, ffafr Duw).

Cafodd cam-drin ysbrydol ei ddiffinio yn 2013 fel "unigolyn yn rheoli a dwyn pwysau ar berson arall mewn cyd-destun ysbrydol. Mae'r person targed yn profi ymosodiad personol emosiynol iawn fel rhan o'r cam-drin. Gall y cam-drin hwn gynnwys: dwyn pwysau ar berson a chymryd mantais, gorfodi person i fod yn atebol, sensoriaeth wrth wneud penderfyniadau, yr angen i gadw cyfrinachedd a pheidio â dweud dim, pwysau i gydymffurfio, camddefnyddio'r ysgrythur neu'r pulpud er mwyn rheoli ymddygiad, rheidrwydd i ufuddhau i'r sawl sy'n gwneud y cam-drin, yr awgrym bod gan y sawl sy'n cam-drin statws 'dwyfol', wedi'i ynysu oddi wrth eraill, yn enwedig y rhai sydd y tu allan i gyd-destun y cam-drin." (Oakley & Kinmond, 2013)

Trais Domestig

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r llywodraeth yn diffinio trais domestig fel: 'unrhyw ddigwyddiad lle ceir ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion 18 oed a throsodd, sy'n neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r un teulu, waeth beth fo'u rhyw a'u rhywioldeb.' (Diffinnir aelodau'r teulu fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau, pa un a ydynt yn perthyn yn uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu'n llysoedlu.)

Yn 2004 ehangwyd diffiniad y llywodraeth o drais domestig i gynnwys gweithredoedd sy'n cael eu cyflawni gan aelodau estynedig o'r teulu yn ogystal â phartneriaid agos. Oherwydd hyn, gellir cynnwys pethau megis priodas dan orfod a throseddau sy'n cael eu cyflawni 'ar sail anrhydedd'. Mae cipio a llofruddiaeth yn cael eu cynnwys bellach o dan y diffiniad o drais domestig.

Adolygodd y llywodraeth ei diffiniad o drais a cham-drin domestig fel a ganlyn ym mis Mawrth 2013:

"Unrhyw achos neu batrwm o ymddygiad sy'n rheoli neu'n bygwth, neu o drais neu gam-drin rhwng y rhai sydd yn 16 oed neu drosodd, sy'n neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r un teulu, waeth beth fo'u rhyw a'u rhywioldeb." Gall hyn gynnwys y mathau canlynol o gam-drin, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

1. Seicolegol
2. Corfforol
3. Rhywiol
4. Ariannol
5. Emosiynol

"Mae ymddygiad sy'n rheoli yn cynnwys: ystod o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud person yn israddol ac/neu yn ddibynnol drwy eu hynysu a'u cadw rhag ffynonellau o gymorth, gan ecsbloetio'r adnoddau a'r galluoedd sydd ganddynt a hynny er budd personol, a'u hamddifadu o'r adnoddau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol, i wrthsefyll a dianc, a hynny wrth reoli eu bywyd bob dydd."

“Mae ymddygiad sy’n gorfodi: yn weithred neu’n ddilyniant o weithredoedd sy’n ymosod, yn bygwth, yn sarhau, yn codi ofn neu unrhyw gam-drin arall sy’n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.”

Ystyr aelodau o’r teulu yw mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau, pa un a ydynt yn perthyn yn uniongyrchol neu beidio, teulu yng nghyfraith a llysdeulu. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn, a gellir hefyd gynnwys ewythrod, modrybedd, cefndryd a chyfnitherod, ayb.

Mae dogfen y Swyddfa Gartref (2009) *What is Domestic Violence?* London: Home Office yn diffinio trais domestig fel a ganlyn:

“Unrhyw achos o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion sy’n neu a fu’n bartneriaid agos neu’n aelodau o’r teulu, waeth beth fo’u rhyw a’u rhywioldeb’.

Mae bron i chwarter yr oedolion sy’n byw yn Lloegr wedi dioddef trais domestig. Er bod dynion a merched fel ei gilydd yn dioddef fel hyn, mae cyfran uwch o ferched yn dioddef pob math o drais domestig, ac yn fwy tebygol o gael eu niweidio’n ddifrifol neu eu lladd gan bartner, cyn-bartner neu gariad. Mae priodas dan orfod a thrais sy’n cael ei gyflawni ar sail anrhydedd yn ymosodiadau ar hawliau dynol ac yn dod o dan ddiffiniad y Llywodraeth o drais domestig.

Cyhoeddodd Llywodraeth EM y ddogfen *Violence Against Women and Girls (VAWG) Strategy* yn 2016 a gellir ei gweld [yma](#).

Ymchwilio i gam-drin sy’n gymhleth (wedi’i drefnu neu’n lluosog)

Gellir diffinio’r cam-drin hwn fel cam-drin sy’n cael ei gyflawni gan fwy nag un person ar nifer o blant. Mae’n bosib fod y rhai sy’n cam-drin yn gweithredu ar y cyd ag eraill i gam-drin plant, neu’n gweithredu fel unigolion, neu mae’n bosib y defnyddir fframwaith sefydliadol neu safle o awdurdod i recriwtio’r plant sydd i’w cam-drin.

Mae cam-drin cymhleth yn digwydd fel rhan o rwydwaith cam-drin ar draws teulu neu gymuned, ac o fewn sefydliadau megis ysgolion neu gartrefi preswyl. Mae cam-drin o’r fath yn drawmatig iawn i’r plant sydd dan sylw. Mae’r ymchwiliadau yn cymryd llawer o amser ac egni, ac mae angen sgiliau arbenigol gan yr heddlu a staff y gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd. Mae rhai ymchwiliadau’n datblygu’n rhai cymhleth iawn oherwydd nifer y lleoliadau a nifer y bobl sydd ynghlwm â’r achos a hyd y cyfnod yr honnir i’r cam-drin ddigwydd. Ceir mwy o gymhlethdod pan nad yw’r dioddefwyr honedig bellach yn byw yn y fan lle y digwyddodd y cam-drin neu pan nad oes cysylltiad bellach rhwng y troseddwr honedig a’r lleoliad neu a’r swydd yr oeddent yn arfer ei chyflawni. (Working Together 2010 Adrannau: 6.10 – 6.11)

Plant a phobl ifanc sy’n cael eu hecsbloetio’n rhywiol

Cyflwynodd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 nifer o droseddau newydd i ddelio â'r rhai sy'n ecsbloetio plant a phobl ifanc. Mae'r troseddau'n amddiffyn plant hyd at 18 oed a gallant ddwyn cosbau llym. Maent yn cynnwys:

- talu am wasanaethau rhywiol gan blentyn;
- achosi neu annog plant i buteinio;
- trefnu neu hwyluso puteindra ymhlith plant; a
- rheoli plentyn sy'n puteinio.

Ecsbloetio Plentyn yn Rhywiol

Mae ecsbloetio plentyn yn rhywiol yn fath o gam-drin rhywiol ar blentyn. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, dwyn pwysau ar neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, ac/neu (b) er budd ariannol neu er sicrhau statws uwch i'r cyflawnwr neu'r hwylusydd. Mae modd i'r dioddefwr gael ei ecsbloetio'n rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw ecsbloetio plant yn rhywiol bob amser yn golygu cyswllt corfforol; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg.

O ran ymdrin ag ecsbloetio plant yn rhywiol ar lefel fwy rhyngwladol, mae Interpol wedi llunio rhestr o derminoleg sy'n briodol wrth gyfeirio at droseddau rhywiol yn erbyn plant. Gellir gweld y manylion [yma](#).

Anffurfio organau cenhedlu benywaidd (FGM)

Mae diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o'r hyn yw anffurfio organau cenhedlu benywaidd yn cynnwys unrhyw driniaeth sy'n ymwneud â thynnu neu dynnu'n rhannol neu bwytho genitalia benywaidd neu unrhyw niwed arall i organau cenhedlu benywaidd, boed hynny am resymau diwylliannol neu resymau eraill nad ydynt yn therapiwtig.

Mae Working Together (2010) yn datgan:

“Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd (FGM) yn derm cyfunol ar gyfer triniaethau sy'n cynnwys tynnu rhan o genitalia menyw neu'r genitalia cyfan am resymau diwylliannol a rhesymau eraill nad ydynt yn therapiwtig. Nid oes unrhyw reswm meddygol dros wneud hyn; mae'n boenus iawn ac yn cael effaith niweidiol ar iechyd yr unigolyn, ar y pryd ac yn ddiweddarach. Fel arfer mae'n digwydd i ferched ifanc rhwng 4 a 13 oed, ond weithiau rhoddir y driniaeth i blant newydd-anedig neu fenywod ifanc cyn iddynt briodi neu feichiogi. Mae nifer o ferched yn marw o ganlyniad uniongyrchol i'r driniaeth oherwydd eu bod yn colli gwaed neu'n dioddef haint, naill ai yn dilyn y driniaeth neu'n ddiweddarach wrth eni plentyn.”

Mae anffurfio organau cenhedlu benywaidd (FGM) yn y DU yn drosedd ers pasio'r ddeddf Prohibition of Female Circumcision Act yn 1985. Disodlwyd Deddf 1985 gan ddeddf The Female Genital Mutilation Act 2003 sy'n ei gwneud hi'n drosedd i wladolion y DU neu drigolion parhaol y DU

i gyflawni FGM dramor neu i gaffael, i gynorthwyo, annog neu gynghori bod FGM yn cael ei gyflawni dramor, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'n gyfreithiol i hyn ddigwydd.

Mae dyletswydd hysbysu gorfodol am anffurfio organau cenhedlu benywaidd mewn bodolaeth. Rhaid i athrawon a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r heddlu am unrhyw achosion o anffurfio organau cenhedlu benywaidd o dan 18 oed. Daeth y ddyletswydd parthed anffurfio organau cenhedlu benywaidd i rym ar 31 Hydref 2015.

**AM DDIFFINIAD O GAM-DRIN OEDOLION, GWELER ATODIAD 2 YM MHOLISI DIOGELU
CYMDEITHAS Y BEIBL SYDD HEFYD AR GAEL FEL DOGFEN AR WAHÂN O WNEUD CAIS.**

ATODIAD 2 – BETH I'W WNEUD OS OES GENNYCH BRYDER AM DDIOGELU

Dylai Storiwr sydd â phryderon diogelu ynghylch:

